

# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

## Answers to Questions not reached in Plenary

### 25/06/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Questions to the Minister for Rural Affairs

#### Social and Economic Wellbeing of Rural Communities

#### Lles Cymdeithasol ac Economaidd Cymunedau Gwledig

**Q4 Huw Lewis:** Will the Minister make a statement on the Assembly Government's actions to improve the social and economic wellbeing of rural communities? OAQ(3)0376(RAF)

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** These are not factors that can be considered in isolation given the close linkages between urban and rural areas. 'One Wales' sets out our strategic commitments, and I will be working closely with Cabinet colleagues to ensure that we meet the needs of rural areas.

**C4 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau Llywodraeth y Cynulliad i wella lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau gwledig? OAQ(3)0376(RAF)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Nid yw'n bosibl ystyried ffactorau o'r fath ar eu pennau eu hunain, o gofio'r cysylltiadau agos rhwng ardaloedd dinesig a gwledig. Mae 'Cymru'n Un' yn amlinellu ein hymrwymiadau strategol, a byddaf yn cydweithio'n agos â'm cyd-Weinidogion yn y Cabinet i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ardaloedd gwledig.

Atebwyd cwestiynau 5 i 13 yn y Cyfarfod Llawn.  
Questions 5 to 13 answered in Plenary.

#### Y Diwydiant Llaeth

#### The Dairy Industry

**C13 Nerys Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r diwydiant llaeth yng Nghymru? OAQ(3)0385(RAF)

**Elin Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r diwydiant llaeth yng Nghymru drwy roi'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer y diwydiant llaeth yng Nghymru ar waith, sy'n nodi'r ffyrdd y gall pawb sy'n gweithio yn y gadwyn gyflenwi gydweithio â'i gilydd, ac â Llywodraeth Cynulliad Cymru, i ymateb i heriau mewn ffordd bositif.

**Q13 Nerys Evans:** Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for the dairy industry in Wales? OAQ(3)0385(RAF)

**Elin Jones:** The Welsh Assembly Government supports the Welsh dairy industry through implementation of the strategic action plan for the Welsh dairy industry, which identifies ways in which all those working in the supply chain can work with each other and the Welsh Assembly Government to respond to challenges in a positive way.

#### Welsh Food and Drink

#### Bwyd a Diod o Gymru

**Q14 David Melding:** Will the Minister make

**C14 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog

a statement on the promotion of Welsh food and drink? OAQ(3)0355(RAF)

**Elin Jones:** The Assembly Government supports a variety of schemes to promote the food and drink industry in Wales, including the True Taste Awards, which I launched at the Haverfordwest farmers' market, financial support to food festivals, two major trade development schemes and a programme of events and exhibitions in the UK and abroad.

### The Farming Industry

**Q15 Nick Ramsay:** Will the Minister make a statement on the support being offered by the Welsh Assembly Government to the farming industry in Wales? OAQ(3)0387(RAF)

**Elin Jones:** Within 'One Wales', commitments within my portfolio are aimed at delivering a sustainable and profitable industry. The rural development plan offers further support and, under the common agricultural policy, effective delivery of the payments to farmers. I am currently consulting on a future strategy to support farming, food and the countryside in Wales.

ddatganiad am hybu bwyd a diod o Gymru?  
OAQ(3)0355(RAF)

**Elin Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi amrywiol gynnlluniau i hybu'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, gan gynnwys Gwobrau'r Gwir Flas, a lansiwyd gennylf ym marchnad ffermwyr Hwlffordd, cymorth ariannol i wyliau bwyd, dau gynllun o bwys i ddatblygu masnach a rhaglen o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd yn y DU a thramor.

### Y Diwydiant Ffermio

**C15 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth sy'n cael ei chynnig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r diwydiant ffermio yng Nghymru?  
OAQ(3)0387(RAF)

**Elin Jones:** Yn y ddogfen 'Cymru'n Un', nod yr ymrwymiadau o fewn fy mhortffolio yw creu diwydiant cynaliadwy a phroffidiol. Mae'r cynllun datblygu gwledig yn cynnig cymorth pellach ac, o dan y polisi amaethyddol cyffredin, yn sicrhau bod y taliadau i ffermwyr yn cael eu gwneud yn effeithiol. Yr wyf ar hyn o bryd yn ymgynghori ar strategaeth i gefnogi ffermio, bwyd a chefn gwlad Cymru yn y dyfodol.